EISTEDDFOD 2025

**154. TRIAWD NEU BEDWARAWD CERDD DANT**

# Darluniau o Dduw

(ar ôl gweld y rhaglen deledu –
'Children's Pictures of God')

Pan baentio'r gwanwyn wyrdd yn nail y coed
A'r blodau'n garped lliwgar dan fy nhroed,
Pan brancio'r ŵyn ar hyd y twyni iach
Daw i mi lun o Dduw fel plentyn bach.

Pan daflo'r haul ei gyfoeth dros y tir
Yn fantell aur o erwau'r wybren glir;
Pam welaf lawnder haf yn llysiau'r ardd
Caf lun o Dduw fel llencyn ifanc, hardd.

Pan ddelo'r gwyll i sbeilio sblander pnawn
A chnau y cyll yn eu cwpanau'n llawn,
Pan grino dail y deri dan fy nhroed
Fe fydd fy Nuw bryd hynny'n ganol oed.

Ond pan ddêl eira fel conffeti gwyn
I wledd briodas deg y ddôl a'r bryn,
A'r iâ i roi ei follt ar gân y dŵr
Bydd Duw â'i farf yn llaes fel rhyw hen ŵr.

**IWAN MORGAN**